



At: Brif Swyddogion Cynllunio Cymru

6 Hydref 2014

Annwyl Gydweithiwr

NEWIDIADAU I RAN 24 YR HAWL DATBLYGU A GANIATEIR

Mae'r llythyr hwn yn rhoi rhybudd ymlaen llaw o'r newidiadau sydd wedi'u gwneud i Ran 24 yr hawl datblygu a ganiateir ("Datblygu gan Weithredwr Codau Cyfathrebu Electronig (Cymru)") gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2014 ("Gorchymyn 2014").

Ni fydd y newidiadau hyn yn dod i rym tan 7 Tachwedd 2014. Mae hyn yn rhoi amser i awdurdodau cynllunio lleol a rhanddeiliaid eraill ymgyswngi â'r newidiadau sydd wedi'u gwneud i Ran 24 a'r gweithdrefnau cysylltiedig.

Daw'r newidiadau hyn yn sgil y cynigion ym mhapur ymgynghori y llynedd ar "Hawliau datblygu a ganiateir ychwanegol arfaethedig ar gyfer Gweithredwyr Codau Cyfathrebu Electronig (hwyluso cyflwyno band eang)" ac maent yn ymwneud â'r canlynol:

- offer penodol megis polion telegraff, cabinetau neu linellau pan fyddant yn cael eu defnyddio gan Weithredwr Codau i ddarparu band eang llinell sefydlog ar dir erthygl 1 (5) (*Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ac ardaloedd cadwraeth*); ac
- offer a ddefnyddir yn aml gan Weithredwyr Codau i ddarparu gwasanaethau ffôn symudol.

Bydd Gorchymyn 2014 yn cael ei gyhoeddi ar www.legislation.gov.uk yn yr wythnosau nesaf, ac mae copi drafft ynghlwm er gwybodaeth. Yn y cyfamser, mae Atodiadau A a B i'r llythyr hwn yn cynnwys crynodeb o'r newidiadau allweddol sydd wedi'u gwneud i Ran 24 gan Orchymyn 2014.

Bydd canllawiau gweithdrefnol ar gael i awdurdodau cynllunio lleol cyn y dyddiad y daw'r newid i rym. Bydd Atodiad 1 ("Canllawiau ar Weithdrefnau Rhag-Gymeradwyo ar gyfer Datblygiadau Telathrebu a Ganiateir") i Nodyn Cyngor Technegol 19 "Telathrebu" (Awst 2002) yn cael ei ddisodli gan y canllawiau newydd maes o law.

Yn gywir

Rosemary Thomas
Prif Gynllunydd
Adran Adnoddau Naturiol

ATODIAD A

Offer band eang llinell sefydlog ar dir erthygl 1(5) (*Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ac ardaloedd cadwraeth*)

Crynodeb o'r newidiadau allweddol sydd wedi'u gwneud i Ran 24 (Cymru) gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2014

1. Yn achos tir erthygl 1(5), o 7 Tachwedd 2014 ymlaen, ni fydd angen gwneud cais rhag-gymeradwyo o dan baragraff A.3 o Ran 24 ar gyfer datblygiad Dosbarth A sy'n cynnwys adeiladu, gosod neu newid polyn telegraff, cabinet neu linell ar gyfer band eang llinell sefydlog. Yn hytrach i) bydd angen cwblhau datblygiad o'r fath ar neu cyn 30 Mai 2018, a ii) bydd angen cydymffurfio â 3 amod ychwanegol.

2. Dyma'r 3 amod ychwanegol:

- 1) Rhaid i'r datblygwr roi mis o rybudd ysgrifenedig os yw'r datblygiad mewn -
 - i. Parc Cenedlaethol, i'r Cyngor/Cynghorau Sir perthnasol ar gyfer yr ardal ac i Cyfoeth Naturiol Cymru; ac
 - ii. Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, i Cyfoeth Naturiol Cymru.
- 2) Rhaid i unrhyw gabinet fod yn wyrdd, yn ddu (ac eithrio du mat) neu liw arall sydd wedi cael cymeradwyaeth ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol cyn dechrau'r datblygiad.
- 3) Rhaid i unrhyw bolyn telegraff edrych yr un fath a bod wedi'i wneud o'r un deunydd â'r polyn telegraff agosaf ato sydd wedi cael caniatâd cynllunio, oni bai bod edrychiad neu ddeunydd arall wedi cael cymeradwyaeth ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol cyn dechrau'r datblygiad.

3. Bydd angen i'r rhybudd y cyfeirir ato ym mharagraff 2 1) uchod nodi bwriad y datblygwr i osod offer, disgrifio'r offer hwnnw a nodi lle y bwriedir ei leoli.

ATODIAD B

Crynodeb o'r newidiadau allweddol sydd wedi'u gwneud i Ran 24 (Cymru) sy'n gysylltiedig ag offer seilwaith ffonau symudol gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2014

1. Newid y trothwy rhag-gymeradwyo presennol (A.2 (4) (b) o Ran 24) ar gyfer antenau ar adeiladau neu strwythurau o 4 metr i 6 metr.
2. Cynyddu nifer y systemau antena y caniateir eu gosod ar adeiladau neu strwythurau (ac eithrio mastiau) fel datblygu a ganiateir.
(Caniateir 3 system antena yn achos adeiladau/strwythurau o dan 15 metr o uchder; 5 system antena yn achos adeiladau/strwythurau sy'n 15 metr o uchder neu'n uwch).
3. Darpariaeth wedi'i gwneud ar gyfer hyd at ddau "antena celloedd bach" (yn seiliedig ar ddiffiniad sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio mewn deddfwriaeth eilaidd yn Lloegr a'r Alban) ar adeiladau (ond nid ar nac o fewn cwrtil unrhyw annedd) neu strwythurau. *(Yn achos tir erthygl 1(5), mae gofyniad cais rhag-gymeradwyo yn berthnasol).*
4. Cynyddu uchafswm yr antenau dysgl [a ddefnyddir gan Weithredwyr Codau] a ganiateir ar adeiladau neu strwythurau eraill.
5. Darpariaeth wedi'i gwneud ar gyfer hyd at 3 antena dysgl ychwanegol (nad ydynt yn fwy na 0.6 metr) a hyd at 3 antena ychwanegol nad ydynt yn antenau dysgl (nad ydynt yn fwy na 3 metr o uchder) i'w hychwanegu at osodiad presennol ar adeiladau a strwythurau eraill (gan gynnwys mastiau) ar dir erthygl 1(5). *(Mae gofyniad cais rhag-gymeradwyo yn berthnasol).*
6. Darpariaeth wedi'i gwneud ar gyfer mastiau presennol (nad ydynt ar dir erthygl 1(5)) i gael eu cynyddu o hyd at 15 metr o uchder i hyd at 20 metr o uchder, ac i'w lled gael ei gynyddu hyd at draean. *(Mae gofyniad cais rhag-gymeradwyo yn berthnasol).*
7. Mae newidiadau eraill hefyd wedi'u gwneud i Ran 24 (Cymru):
 - Manylion cyswllt y datblygwr i'w cyflwyno gyda chais a wneir o dan Ran 24 er mwyn eu rhag-gymeradwyo.
 - Dileu'r gofyniad i wneud cais rhag-gymeradwyo ar gyfer datblygiad sy'n gysylltiedig â chadw offer radio ("*development ancillary to radio equipment housing*") ar dir nad yw'n dir erthygl 1(5).
 - Mae diffiniad newydd o "system antena" wedi'i gynnwys yn A. 4 o Ran 24.
 - Darperir eglurhad mewn amryw o feysydd:
 - y terfynau cyfaint presennol ar gyfer cadw offer radio;
 - gall yr hawl datblygu a ganiateir gynnwys (ac eithrio o fewn SoDdGA) unrhyw gas neu orchudd, mowntin, gosodiad, braced neu unrhyw strwythur cynnal arall, waliau neu ffensys perimedr, canllawiau, stepiau neu rampiau neu offer diogelwch gofynnol;
 - gall datblygiad sy'n gysylltiedig â chadw offer radio gynnwys (ac eithrio o fewn SoDdGA) offer diogelwch, waliau a ffensys perimedr, canllawiau, stepiau a rampiau;

os bydd y datblygwr a'r awdurdod cynllunio lleol yn cytuno i wneud mân addasiadau i ddatblygiad a gynigir mewn cais rhag-gymeradwyo, ni fydd angen cyflwyno cais rhag-gymeradwyo newydd.